Chwaraeon Met Caerdydd
Cardiff Met Sport

# TELERAU AC AMODAU LLOGI

## Cynnwys


*TELERAU AC AMODAU LLOGI* ........ *1*
**DIFFINIADAU** ........ **1**
**TALIAD** ........ **1**
TALU AM ARCHEBION AR GYFER DIGWYDDIADAU ........ 2
**TELERAU CANSLO** ........ **2**
CANSLO ARCHEBION AR GYFER DIGWYDDIADAU ........ 2
CANSLO ARCHEBION CYFFREDINOL AC ARCHEBION GRŴP ........ 2
**DEFNYDDIO EIN CYFLEUSTERAU** ........ **2**
**IECHYD A DIOGELWCH** ........ **3**
DATGANIAD IECHYD ........ 3
**CYFRIFOLDEB A RHWYMEDIGAETH** ........ **3**
**POLISÏAU A GWEITHDREFNAU'R BRIFYSGOL** ........ **4**
**CYFFREDINOL** ........ **4**
GDPR ........ 5
Diogelu ........ 5
Cwynion ........ 5
Defnyddio Dronau ........ 5


## DIFFINIADAU

Yn y telerau ac amodau hyn, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyron canlynol:
Ystyr **"Prifysgol"** yw Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
Ystyr **"Llogwr"** yw'r person, sefydliad neu unrhyw asiant neu gynrychiolydd unrhyw berson neu sefydliad sy'n llogi'r Cyfleusterau ar gyfer unrhyw Logi.
Ystyr **"Llogi"** yw'r weithred o fynychu a/neu ddefnyddio'r Cyfleusterau gan y Llogwr.
Ystyr "**Cyfleusterau**" yw'r tir, y cyfleusterau a/neu'r adeiladau y Brifysgol a logir yn benodol i'r Llogwr, ynghyd ag unrhyw eiddo neu wasanaethau cysylltiedig y Brifysgol sydd ar gael neu a ddefnyddir yn ystod y Llogi.
Ystyr "**Archeb Sengl**" yw'r defnydd untro o'r Cyfleusterau.
Ystyr "**Archebion Cyffredinol/Archebion ar gyfer Grwpiau**" yw'r defnydd rheolaidd o gyfleusterau.
Bydd "**Archebu Digwyddiad**" yn golygu archeb ar gyfer digwyddiad.
Bydd **"Archebu"** yn golygu naill ai Archebu Sengl/Cyflogi Cyffredinol/Archebu Bloc neu Archebu Digwyddiad yn ôl y sefyllfa neu'r cyd-destun.
Bydd **"Defnyddiwr"** yn golygu unrhyw un a phob person sy'n defnyddio'r Cyfleusterau sy'n deillio o unrhyw Logi, ynghyd ag unrhyw westeion y Llogwr neu unrhyw Ddefnyddiwr.

Yn y telerau ac amodau hyn, bydd geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog ac, yn y lluosog, yn cynnwys yr unigol

## TALIAD

Bydd pris Llogi'r Cyfleusterau yn unol â'r tariffau a ddyfynnir neu a gyhoeddwyd ar gyfer y dyddiad neu'r cyfnod Llogi

oni nodir yn wahanol yn ysgrifenedig ar adeg yr archeb.
Rhaid talu'r holl ffioedd a thaliadau archebu yn llawn cyn dechrau'r cyfnod Llogi. Rhaid gwneud unrhyw daliadau drwy fancio ar-lein i "Cardiff Met Co. Ltd". Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r Llogwr neu unrhyw Ddefnyddiwr i'r Cyfleusterau mewn unrhyw achos lle nad yw'r Brifysgol wedi derbyn taliad llawn cyn dechrau'r cyfnod Llogi. Ni fydd unrhyw archebion a ganslwyd gan y Llogwr o fewn llai na 14 diwrnod cyn dyddiad eich trefniant Llogi yn gymwys i gael unrhyw ad-daliad.

### TALU AM ARCHEBION DIGWYDDIAD

Bydd y telerau talu canlynol yn berthnasol:
Blaendal na ellir ei ad-dalu o 25% i gadarnhau'r archeb.
Ni ellir ad-dalu'r 75% sy'n weddill 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod llogi.

Yr eithriad i hyn yw Diwrnodau Chwaraeon Ysgolion. Taliad lawn na ellir ei ad-dalu i'w dderbyn 4 wythnos cyn dechrau'r cyfnod llogi.

Codir TAW ar y gyfradd briodol sy'n berthnasol i'r math o archeb a'r cwsmer.

## TELERAU CANSLO

### CANSLO ARCHEBU DIGWYDDIADAU

Os bydd y Llogwr yn canslo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i hawlio'r canlynol:-

- Os caiff archeb yn cael ei ganslo fwy na 4 wythnos cyn y cyfnod llogi - 25% o gyfanswm y gost.
- Os caiff archeb ei ganslo o fewn 4 wythnos i 14 diwrnod cyn y cyfnod llogi – 75% o gyfanswm y gost.
- Os caiff archeb ei ganslo llai na 14 diwrnod cyn y cyfnpd llogi – 100% o gyfanswm y gost.

### CANSLO ARCHEBION CYFFREDINOL AC ARCHEBION GRŴP

Ni fydd unrhyw archebion (ac eithrio tenis) sy'n cael ei gamslo llai na 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod Llogi yn gymwys i gael ad-daliad.

Ar gyfer tenis, bydd unrhyw archeb sy'n cael ei chanslo gan y Llogwr gyda llai na 14 diwrnod o rybudd, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod y cyrtiau a gafodd eu canslo ar gael i'w llogi ar sail talu a chwarae. Os na allwn ail-logi'r cyrtiau, bydd gofyn i chi dalu 100% o'r tâl llogi. Os gallwn ail-logi'r cyrtiau, ni fyddwch yn wynebu unrhyw dâl am y cyrtiau sydd wedi'u canslo.

Os bydd y Brifysgol yn penderfynu nad oes modd defnyddio unrhyw un o'r Cyfleusterau oherwydd tywydd garw, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu cyfleusterau eraill neu'n cytuno i aildrefnu'r archeb gyda'r Llogwr. Os oes eira/tywydd eithafol neu unrhyw reswm arall y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, ni fydd y Brifysgol yn gallu cynnig ad-daliadau.

## DEFNYDDIO EIN CYFLEUSTERAU

Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio unrhyw gwrt, cae nac ystafell tan yr amser cychwyn a neilltuwyd a rhaid iddynt adael dim hwyrach na'r amser gorffen a ddangosir ar y cadarnhad archebu neu'r dderbynneb.

Bydd pob Llogi sy'n deillio o Archeb Sengl yn dechrau ar yr awr neu hanner awr ac yn dod i ben 5 munud cyn yr awr neu hanner awr e.e., bydd Archeb Gyffredinol 8.00yh - 9.00yh yn dod i ben am 8.55yh. Rhaid i'r Llogwr adael y Cyfleusterau ar yr amser gorffen er mwyn caniatáu trosglwyddiadau llyfn rhwng archebion.

Rhaid gwisgo dillad addas (gan gynnwys dillad ar gyfer rhan uchaf y corff) ac esgidiau addas bob amser. Rhaid i ddefnyddwyr wirio'r gofynion esgidiau a dillad ar gyfer y cwrt, cae neu'r ystafell berthnasol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion.

Mae defnyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn gywir. Rhowch wybod am unrhyw offer sydd yn ddiffygiol neu wedi'i ddifrodi i staff Chwaraeon Met ar unwaith.

Mae defnyddwyr yn gyfrifol am addasrwydd a diogelwch unrhyw offer trydanol (megis ffôn a dyfeisiau personol, neu

seinyddion/offer tebyg a ddefnyddir gan grwpiau) y maent yn dod gyda nhw i'r safle.

Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau bod yr adeilad yn cael ei adfer a bod unrhyw offer a ddefnyddir yn cael ei ddisodli'n gywir ar ddiwedd y cyfnod llogi. Rhaid cael gwared ar sbwriel yn y biniau a ddarperir neu rhaid i'r Defnyddwyr ei gymryd i ffwrdd.

Bydd gan y Brifysgol yr hawl i symud unrhyw Ddefnyddiwr o'r Cyfleusterau heb unrhyw ad-daliad nac atebolrwydd o gwbl os bydd y Defnyddiwr:

a) yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n sarhaus, yn anweddus, neu'n anghwrtais neu a allai achosi annifyrrwch neu berygl i eraill.
b) yn bwriadu neu'n yfed alcohol neu'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.
c) yn methu â chydymffurfio â'r telerau ac amodau archebu hyn neu â chyfarwyddiadau rhesymol staff y Brifysgol.

## IECHYD A DIOGELWCH

Rhaid i ddefnyddwyr roi gwybod am bob damwain a digwyddiad. I roi gwybod am ddamwain, digwyddiad bron â digwydd neu os oes angen cymorth cyntaf arnoch, cysylltwch ag aelod o staff ar unwaith a fydd yn galw am gymorth ac yn trefnu i fanylion y ddamwain/digwyddiad gael eu cofnodi.

Mae hysbysiadau diogelwch tân wedi'u harddangos ym mhob safle'r Brifysgol a chyfrifoldeb y Defnyddwyr yw ymgyfarwyddo â'r hysbysiadau cyfarwyddiadol hyn. Ni ddylid anwybyddu larymau tân o dan unrhyw amgylchiadau.

Rhaid i'r Llogwr sicrhau eu bod yn cydymffurfio bob amser â'r hysbysiadau i wylwyr a chyfleusterau a arddangosir yn y gwahanol ardaloedd chwaraeon.

Rhaid i'r Llogwr sicrhau nad yw cyfanswm y bobl sy'n defnyddio'r Cyfleusterau yn fwy na'r niferoedd a argymhellir yn unol â'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch. (Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod am y niferoedd mwyaf a ganiateir ar adeg gwneud yr archeb)

Bydd gofyn i Logwr unrhyw Archeb Digwyddiad gwblhau ffurflen yn amlinellu manylion eu cais archebu. Lle bo'n berthnasol, bydd gofyn i'r Llogwr ddarparu asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer y digwyddiad cyn cadarnhau'r archeb. Rhaid i asesiad risg o'r fath gyfateb ag asesiad risg y Brifysgol ar gyfer y Cyfleusterau a ddarperir i'r Llogwr fel rhan o'r broses archebu.

Bydd Llogwr unrhyw archeb yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth ddigonol o orchudd Cymorth Cyntaf ar gael ar gyfer y gweithgaredd. Dylid pennu'r lefel angenrheidiol o orchudd yn yr Asesiad Risg, gan sicrhau bod unrhyw ofynion neu Ganllawiau Corff Llywodraethu yn cael eu bodloni. Canllawiau ar Ddarparu Gofal Meddygol Cymorth Cyntaf Ionawr 2023

## DATGANIAD IECHYD

Defnyddwyr y cyfleusterau sy'n bennaf gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain a'r defnyddwyr.

Dylai'r Llogwr gynnal ei asesiad risg ei hun a gwneud trefniadau addas sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw berson sy'n mynychu A ALL fod ag unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar eu defnydd diogel o'r Cyfleusterau. Dylai unrhyw Logwr neu Ddefnyddiwr sy'n ansicr o'i iechyd a'i lesiant i'r graddau y gallai effeithio'n andwyol ar ei ymarfer corff neu ei gyfranogiad diogel ymgynghori â'i feddyg. Ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl sy'n deillio o unrhyw ddigwyddiad lle mae Llogwr neu Ddefnyddiwr yn methu â chydymffurfio â chyngor eu meddyg.

## CYFRIFOLDEB A RHWYMEDIGAETH

Bydd gan y Llogwr a phob Defnyddiwr sy'n defnyddio'r Cyfleusterau o dan un Archeb atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir trwy unrhyw weithred fwriadol neu esgeulus gan y Llogwr neu'r Defnyddwyr neu drwy gamddefnyddio offer yn ystod y Llogi sy'n deillio o'r Archeb honno.

Pan fo'r golled neu'r difrod yn deillio o weithredoedd y Llogwr, bydd y Llogwr yn gwbl gyfrifol am bob person ac eiddo a ddygir i'r Cyfleusterau gan y Defnyddwyr yn ystod cyfnod y Llogi a bydd yn indemnio'r Brifysgol rhag unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r Brifysgol neu eiddo eraill sy'n defnyddio'r Cyfleusterau yn gyfreithlon. Rhaid i'r Prif Ddefnyddiwr

fod yn oedolyn cyfrifol a bod yn bresennol drwy gydol y cyfnod Llogi.

Mae gan y Brifysgol Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas â cholled, anaf neu farwolaeth sy'n deillio o Gyfleusterau diffygiol neu esgeulustod staff y Brifysgol. Dylai'r Llogwr a'r Defnyddwyr sicrhau bod ganddynt yswiriant addas i gwmpasu unrhyw risgiau rhesymol ragweladwy eraill sy'n deillio o'r Llogi.

Ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl am anargaeledd unrhyw offer, gwasanaethau neu gyfleustodau neu unrhyw reswm arall y tu hwnt i'w rheolaeth resymol a allai oygu na fydd unrhyw ran o'r Cyfleusterau ar gael.

Oni bai ei fod wedi'i achosi gan esgeulustod y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn eithrio unrhyw atebolrwydd sy'n arwain at farwolaeth neu anaf personol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod i neu golled unrhyw arian, pethau gwerthfawr, dillad neu eiddo o unrhyw fath. Gadewir yr holl eitemau ar risg y Defnyddiwr.

Gofynnir i'r Llogwr benodi person cyfrifol a fydd yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt am hyd y Cyfnod Llogi. Rhaid i'r Llogwr sicrhau bod pob Defnyddiwr o dan 18 oed dan oruchwyliaeth briodol bob amser.

Mae'r Llogwr yn gyfrifol bod unrhyw berson sy'n gweithredu ar ei ran, gan gynnwys isgontractwyr, wedi darparu unrhyw Asesiadau Risg, Datganiadau Dull a dogfennaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r gweithgaredd y maent yn ei gyflawni ar ran y Llogwr.

## POLISÏAU A GWEITHDREFNAU'R BRIFYSGOL

Bydd y Llogwr yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, gan gynnwys

a) parcio
b) Polisi Dim Ysmygu'r Brifysgol
c) Defnyddio Dronau (gweler isod)
d) Contractau Arlwyo (gweler isod)
e) Ffotograffiaeth (gweler isod)

Os, ar unrhyw adeg, y bydd gweithwyr y Brifysgol yn teimlo nad yw archeb yn bodloni'r gofynion a nodwyd uchod, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal neu ganslo'r gweithgaredd sy'n digwydd.

Mae gan y Brifysgol gyflenwyr arlwyo y mae’n eu defnyddio a’u hargymell. Ni all llogwyr ddod â'u cyflenwr arlwyo eu hunain i mewn heb ganiatâd y Brifysgol.

Ni chaniateir ffotograffiaeth na delweddu digidol ar unrhyw adeg heb ganiatâd penodol ymlaen llaw gan y Brifysgol. Mae gennym ffotograffwyr y gallwn eu hargymell ar gyfer eich digwyddiad. Am fwy o fanylion cysylltwch â Gweinyddwr Chwaraeon ar sportadmin@cardiffmet.ac.uk

## CYFFREDINOL

Ni chaiff y Llogwr isosod y Cyfleusterau na gwneud unrhyw ddefnydd o'r Cyfleusterau ac eithrio'r hyn a nodir yn y Ffurflen Archebu heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Brifysgol.

Ni chaniateir anifeiliaid anwes ar dir y Brifysgol ac eithrio cŵn tywys neu gŵn cymorth eraill.

Mae amseroedd agor/cau i'w gweld ar ein gwefan www.cardiffmet.ac.uk/sport . Bydd unrhyw newidiadau i'r amseroedd hyn yn cael eu harddangos ar ein gwefan ac ar Ap Chwaraeon Met Caerdydd.

Cyfyngiadau Oedran: Rhaid i blant fod dros 16 oed oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn ac eithrio badminton/tenis ac unrhyw amgylcheddau rheoledig fel gwersi nofio ac ati.

Cysylltwch â'r dderbynfa os oes gennych unrhyw ymholiadau sport@cardiffmet.ac.uk

## GDPR

Mae Chwaraeon Metropolitan Caerdydd yn rhan o Brifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data'r DU 2018.

Mae'r Brifysgol yn prosesu data personol yn gyfreithlon ar gyfer archebu digwyddiadau a defnyddio cyfleusterau yn unol ag Erthygl 6.1(b) o'r GDPR. Bydd holl ddata defnyddwyr yn cael ei drin yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data. Ni fydd Met Caerdydd yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw drydydd partïon oni bai bod y Gyfraith yn caniatáu hynny.

Gweler ein hysbysiad preifatrwydd am fanylion pellach neu gellir cael rhagor o wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau Diogelu Data'r Brifysgol drwy dataprotection@cardiff.gov.uk

## Diogelu

Rydym yn ymrwymo i greu diwylliant sy'n caniatáu i bawb sy'n cael mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol ym Met Caerdydd wneud hynny mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn ein chwaraeon wneud hynny'n ddiogel gan wybod ein bod yn gweld ein cyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn fel ein hystyriaeth bwysicaf. Os hoffech chi roi gwybod am bryder ynghylch diogelu, anfonwch e-bost at sport.safeguarding@cardiffmet.ac.uk

## Cwynion

Rhaid cyflwyno unrhyw gŵyn sy'n deillio o'r broses logi i sport@cardiffmet.ac.uk o fewn 5 diwrnod i'r achos y cwynir amdano.

## Defnyddio Dronau

Rhaid i bob llogwr sy'n gweithredu drôn ar gampws y Brifysgol gael Awdurdod Gweithredu Drôn Trydydd Parti gan gydlynydd drôn Chwaraeon Met.
Cysylltwch â dgomm@cardiffmet.ac.uk